


**BWRDD  
GWASANAETHAU  
CYHOEDDUS  
GWYNEDD AC  
YNYS MÔN**



Dydd Mercher, 22 Fedi 2021

14:00 – 16:00

Microsoft Teams

<b>Aelodau presennol:</b>	
<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>
Cyng. Dyfrig Siencyn (DS) - Cadeirydd	Cyngor Gwynedd
Annwen Morgan (AM)	Cyngor Sir Ynys Môn
Ffion Johnstone (FfJ)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyng. Llinos Medi Huws (LIMH)	Cyngor Sir Ynys Môn
Sian Williams (SW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Nia Williams (NW)	Cyfoeth Naturiol Cymru
Gwenllian Roberts (GR)	Llywodraeth Cymru
Shan Morris (SM)	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Ffrancon Williams (FfW)	Adra
Aled Jones-Griffith (AJG)	Grŵp Llandrillo Menai
Sian Purcell (SP)	Medrwn Môn
Sarah Andrews (SA)	Iechyd Cyhoeddus Cymru

<b>Yn mynychu:</b>	
Nonn Hughes (NH)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Lois OwenS (LO)	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn
Dewi Wyn Jones (DWJ)	Cyngor Gwynedd

<b>Ymddiheuriadau:</b>	
Jo Whitehead	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Gillian Jones	Gwasanaeth Prawf
Catrin Thomas	Gwasanaeth Prawf
Emyr Williams	Parc Cenedlaethol Eryri
Dafydd Gibbard	Cyngor Gwynedd

Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Neil Thomas	Heddlu Gogledd Cymru
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd

### Pwyntiau Gweithredu:

- 1) Gwahodd aelodau'r BGC i roi diweddariad cryno ar eu cynlluniau tloidi yn ystod cyfarfod nesaf y BGC ym mis Rhagfyr. **LO**
- 2) Sylwadau ar y Cylch Gorchwyl:
  - Awgrymwyd i newid y geiriad ym mharagraff 3.2 o'r Cylch Gorchwyl i nodi mai Pwyllgor Gwaith yw'r enw am y Cabinet yng Nghyngor Sir Ynys Môn.
  - Cytunwyd i ychwanegu paragraff am gworwm yn y Cylch Gorchwyl i adlewyrchu'r hyn sy'n ddisgwyliedig yn ôl y Ddeddf sef cworwm i'r BGC yw'r holl aelodau statudol.
  - Paragraff 5 Adnoddau - cytunwyd hefyd i ychwanegu'r geiriad 'holl aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod y BGC pan fydd angen penderfyniad'
  - Cytunwyd i ychwanegu geiriad am gyfnod y gadeirydd a'r is-gadeirydd – sef dwy flynedd fan lleiaf
  - Gofynnwyd i bawb ddod yn ôl at Lois Owen efo unrhyw sylwadau pellach ar y Cylch Gorchwyl erbyn 6ed Hydref.
- 3) Holodd Sian Purcell am wahoddiad i weithdy ar 5ed Hydref, sydd wedi ei drefnu gan BGCau y gogledd ar gyfer cynnwys grwpiau na glywir yn aml yn y gwaith ar yr asesiadau llesiant. **NH**
- 4) Cytunwyd i gyflwyno papur opsiynau i gyfarfod nesaf y BGC ar y broses o ddatblygu'r cynllun llesiant. **DWJ/ LO**
- 5) Cyfarfod i'w drefnu rhwng DWJ a Gwenllian Roberts i drafod rhannu a defnyddio data amser real. **DWJ**
- 6) Tîm cefnogi'r BGC i wneud y trefniadau ariannu ar gyfer y prosiect derbynfeydd, o'r is-grŵp laith **DWJ/ LO**
- 7) Awgrymwyd i Arweinyddion y Cyngorau drafod/ holi am gyllideb i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn un o gyfarfodydd Pwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru i Ogledd Cymru **DS**
- 8) Yr is-grŵp Newid Hinsawdd i roi ystyriaeth i sut i gynnwys plant a phobl ifanc yn y sgysiau am Newid Hinsawdd **SW/NW**

### Cofnod o'r drafodaeth:

Eitem	Nodiadau	Pwy?	Erbyn pryd?
1	<p><b>Croeso ac Ymddiheuriadau</b></p> <p>Croesawyd yr holl fynychwyr i'r cyfarfod a derbyniwyd yr ymddiheuriadau a nodir uchod. Nodwyd fod y Cyng. Llinos Medi yn ymddiheuro gan ei bod wedi ei galw i gyfarfod arall. Er hynny, llwyddodd i ymuno efo ail hanner y cyfarfod.</p> <p>Croesawyd Lois Owens i'w chyfarfod cyntaf a'i llongyfarchwyd ar ei phenodiad i'r rôl o gefnogi gwaith y BGC. Nodwyd mai cyfarfod olaf NH ydoedd gan ei bod wedi derbyn swydd gyda CSYM. Diolchwyd iddi am ei gwaith yn cefnogi'r BGC dros y tair blynedd diwethaf.</p>		

	<p>Nodwyd fod Gwenllïan Roberts yn mynychu'r cyfarfod ar ran Sioned Rees.</p> <p>Croesawyd Sarah Andrews i'w chyfarfod cyntaf yn cynrychioli Iechyd Cyhoeddus Cymru a nodwyd fod y BGC yn edrych ymlaen at ei chyfraniadau.</p>		
<p><b>2</b></p>	<p><b>Cylch Gorchwyl</b> – Cylchredwyd fersiwn diweddaraf o'r Cylch Gorchwyl i bawb cyn y cyfarfod. Nodwyd fod Emyr Williams yn awyddus i ail ymweld efo'r cylch gorchwyl gan fanylu ar rhai materion megis :</p> <p>Para 4.2 Ychwanegu geiriad am gyfnod y gadeirydd a'r is-gadeirydd – sef dwy flynedd fan lleiaf.</p> <p>Para 5. Gwneud Penderfyniadau- yn y Cylch Gorchwyl mae'n nodi <i>Ni fydd penderfyniadau'r Bwrdd, er enghraifft, penderfyniad ar asesiad llesiant lleol a'r cynllun llesiant lleol, yn ddilys ond pan gant eu gwneud ar y cyd ac yn unfrydol gan yr holl aelodau a chyda pob aelod yn bresennol.</i></p> <p>Cytunwyd ein bod yn parhau efo'r trefniant yma yn enwedig ar gyfer yr asesiadau llesiant. Cytunwyd hefyd i ychwanegu'r geiriad 'holl aelodau sy'n bresennol yng nghyfarfod y BGC pan fydd angen penderfyniad' Cyfeiriwyd at y drafodaeth a gafwyd pan sefydlwyd y BGC, sef ei bod yn bwysig rhoi cyfle i bawb gyfrannu at benderfyniadau. Os nad oes modd dod i gytundeb atgoffwyd aelodau'r Bwrdd fod y Ddeddf yn nodi fod y pedwar aelod statudol yn gallu cymeradwyo penderfyniadau.</p> <p>Para 6. Adnoddau – Atgoffa y BGC o'r isod: <i>Cyfrifoldeb pob aelod statudol yn gyfartal fydd adnoddau ar gyfer swyddogaethau'r Bwrdd. Bydd y cyfraniadau yn cael eu cytuno a'i hadolygu gan y Bwrdd yn ôl y gofyn</i></p> <p>Er hynny nodwyd fod disgwyl i bob partner gyfrannu tuag at adnoddau os yn gysylltiedig â gwaith yr is-grwpiau.</p> <p>8. Trefniadau Craffu. Diweddarwyd y paragraff gan adlewyrchu'r sefyllfa bresennol sef <i>Ystyriwyd sefydlu panel craffu ar y cyd i wneud y gwaith ar draws Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd i ganolbwyntio ar alinio amserlenni a chysondeb trefniadau craffu ar draws y ddwy Sir am y tro. Bydd modd adolygu'r trefniadau hyn rhwng y ddau gyngor eto maes o law.</i></p> <p>Awgrymodd SW i'r cylch gorchwyl gyfeirio at gworwm. Cytunwyd i ychwanegu paragraff am gworwm i adlewyrchu'r hyn sy'n ddisgwyliedig yn ôl y Ddeddf sef cworwm i'r BGC yw'r holl aelodau statudol.</p>		

	<p>Gofynnodd AW i newid y geiriad ym mharagraff 3.2 o'r Cylch Gorchwyl i nodi mai Pwyllgor Gwaith yw'r enw am y Cabinet yng Nghyngor Sir Ynys Môn.</p> <p>Gofynnwyd i bawb anfon unrhyw sylwadau pellach at Lois Owens erbyn 6ed Hydref.</p>		
<b>3</b>	<p><b>Cofnodion y cyfarfod diwethaf</b></p> <p>Derbyniwyd y cofnodion fel adlewyrchiad teg o'r drafodaeth. Ni aethpwyd trwy'r pwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf ond cadarnhawyd fod y gweithredoedd wedi digwydd ar gyfer y rhan fwyaf. Bydd y rhai sydd heb ddigwydd yn cael sylw yn ystod cyfarfod nesaf y BGC sef:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Tîm Cefnogi'r BGC i drefnu fod diweddariadau ar gynnydd y partneriaid ar y flaenoriaeth tloidi yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod mis Rhagfyr</li> <li>▪ Dafydd Gibbard i drefnu cyfarfod rhyngddo ef, Sian Williams, Annwen Morgan a swyddogion perthnasol eraill er mwyn trafod y ffordd ymlaen gyda'r is-grŵp newid hinsawdd.</li> </ul>		
<b>4</b>	<p><b>Adroddiad cynnydd ar Aseidiadau Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn ac amserlen</b></p> <p>Cafwyd ddiweddariad gan NH am yr Aseidiadau Llesiant. Yn benodol cyfeiriwyd at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y disgwyliadau statudol a'r Canllaw Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.</li> <li>• Rhestrwyd y gwersi a ddysgwyd o'r broses tro diwethaf a'r angen i'r partneriaid gyd-berchnogi a chydweithio ar yr aseidiadau y tro hyn.</li> <li>• Pwysleisiwyd fod yr aseidiadau llesiant yn ddogfennau byw a bydd modd eu diweddarau'n barhaus.</li> <li>• Cafwyd diweddariad am y gwaith hyd yma sef fod y gwaith o ddadansoddi gwaith a chanfyddiadau ymgysylltu ein partneriaid ar droed. Adroddwyd fod holiadur llesiant Ynys Môn wedi ei gylchredeg ymysg ein partneriaid a'i fod yn fyw hyd at 11eg Hydref. Cadarnhawyd fod amserlen y Fframwaith Adfywio yng Ngwynedd am ganiatáu y byddent yn gallu cyfrannu at yr aseidiadau llesiant cyn cyhoeddi'r fersiynau drafft ohonynt.</li> <li>• Cyfeiriwyd at waith sy'n digwydd yn rhanbarthol. Trwy ddefnyddio'r grant rhanbarthol comisiynwyd Prifysgol Glyndŵr i gydweithio ar yr aseidiadau llesiant yn y gogledd. Yn ogystal mae gweithdy wedi ei drefnu'n rhanbarthol ar gyfer clywed gan y grwpiau na chlywir ganddynt yn aml, am faterion sy'n effeithio ar eu llesiant.</li> <li>• Cyfeiriwyd at amserlen yr Aseidiadau Llesiant. Bydd yr Aseidiadau Llesiant yn cael eu cyhoeddi erbyn Mai 2022 a'r Cynllun Llesiant erbyn Mai 2023. Bydd fersiynau drafft o'r aseidiadau yn cael eu cyhoeddi erbyn Hydref/Tachwedd 2021.</li> </ul>		

	<p>Noddodd SW fod BGC Conwy a Dinbych wedi rhoi ystyriaeth i'r broses o ddatblygu'r cynllun llesiant a'u bod am gynnwys aelodau o'u BGC ar is-grŵp fydd yn datblygu'r cynllun llesiant. Holwyd beth oedd trefniadau BGC Gwynedd ac Ynys Môn. Adroddwyd fod tîm cefnogi Gwynedd a Môn hefyd wedi cychwyn rhoi ystyriaeth i ddatblygu'r cynllun llesiant a chytunwyd i baratoi papur opsiynau ar gyfer cyfarfod nesaf y BGC am y broses o ddatblygu'r cynllun llesiant.</p> <p>Mae Asesiad effaith Cydraddoldeb wedi ei baratoi ar gyfer yr Asesiadau Llesiant – roedd copi ohono wedi ei gylchredeg i'r aelodau cyn y cyfarfod.</p> <p>Cyfeiriodd GR at ddata economaidd sy'n cael ei gasglu'n rhanbarthol a byddai'n ddefnyddiol iddi gael sgwrs efo DWJ am ddata amser real.</p>		
5b	<p><b>Papur cynnig gan is-grŵp yr Iaith Gymraeg</b></p> <p>Cyflwynodd AJG y papur oed yn disgrifio'r cynnig dan sylw. Mae'r prosiect derbynfydd wedi cael cryn sylw gan y BGC yn y gorffennol. Mae'r papur cynnig wedi rhannu'r prosiect yn dair rhan. Gofynnwyd am adnodd ariannol tuag at y rhan cyntaf o'r prosiect. Cefnogwyd mewn egwyddor y prosiect yn ei gyfanrwydd a chytunwyd i gefnogi rhan cyntaf o'r prosiect fel a ganlyn:</p> <p>Grŵp Llandrillo a Menai – cyfraniad o £5,000</p> <p>Cyngor Sir Ynys Môn – cyfraniad o £5,000</p> <p>Y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru – cyfraniad o £3,000</p> <p>Nodwyd fod Cyngor Gwynedd yn cefnogi'r prosiect mewn egwyddor a bydd DS a DG yn trafod ymhellach.</p> <p>Roedd y Bwrdd Iechyd yn cytuno mewn egwyddor ac am drafod ymhellach o fewn eu sefydliad.</p> <p>Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru bod modd iddynt hwythau gyfrannu trwy gynnig amser swyddogion.</p> <p>Cytunwyd bod angen cytundeb rhwng y partneriaid sy'n ymrwmo a chyfrannu. Cytunwyd y byddai tîm cefnogi'r BGC yn cydlynu'r trefniadau hynny, a chysylltu gyda'r partneriaid i gadarnhau trefniadau.</p> <p>Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cefnogi'r prosiect mewn egwyddor fo'r prosiect ac yn cefnogi defnyddio derbynfa Coed y Brenin ar gyfer y prosiect.</p> <p>Cafwyd drafodaeth am sefydlu cyllideb i'r BGC. Cyfeiriodd SW at bapur mae'r Llywodraeth Cymru am ei gyhoeddi am adnoddau i'r BGC. Awgrymodd i'r BGC aros i glywed beth yw canfyddiadau hynny.</p> <p>Awgrymodd GR i'r BGC gofio am ffynonellau ariannu rhanbarthol a chyfeiriodd DWJ at y grant rhanbarthol sy'n cael ei gynnig i BGCau</p>		

	<p>gan y Llywodraeth. Mae'r cyllid y grant rhanbarthol eleni ar gyfer datblygu'r asesiadau llesiant ond i'r BGC gofio am y ffynhonnell yma i'r dyfodol.</p> <p>Dywedodd FfW bod y BGC angen cyllideb refeniw e gallu gwneud penderfyniadau'n gynt ar gyfer cyflawni gwaith yr is-grwpiau. Cytunodd DS i gyfleu'r neges yma'n ffurfiol trwy Bwyllgor Cabinet Llywodraeth Cymru i Ogledd Cymru.</p> <p>Cytunwyd i symud ymlaen efo rhan 1 o'r prosiect laith a diolchwyd i AJG am ei frwdfrydedd a'i flaengaredd</p>		
<b>5c</b>	<p>Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd</p> <p>Adroddwyd fod CNC wedi cychwyn gwaith o ymgysylltu ym Mhorthmadog. Byddent yn rhoi sylw i faterion megis: pam maent yn ymgysylltu, ar ba ffurf a beth yw'r allbynnau disgwylidig. Nodwyd ei fod yn ddyletswydd statudol ar CNC i ymgymryd â'r gwaith, a'r bwriad ganddynt ydi cynnwys y partneriaid yn y gwaith. Bydd CNC yn mapio swyddogaethau'r gwahanol fudiadau.</p> <p>Cyfeiriodd AJG at y pwysigrwydd o gynnwys pobl ifanc yn y trafodaethau am newid hinsawdd. Cadarnhawyd fod yr is-grŵp am ddatblygu cynllun ymgysylltu.</p> <p>Atgoffodd AM yr is-grŵp o'r angen i gadw golwg ar drefniadau Newid Hinsawdd sy'n digwydd yn rhanbarthol a chenedlaethol. Yn ogystal mynegwyd ei bod yn anodd i'r Cynghorau gyfrannu adnoddau at ddigwyddiad COP.</p>		
<b>5e</b>	<p>Cafwyd ddiweddariad ar adroddiad gynnydd yr is-grŵp. Adroddwyd fod arian ICF a TF yn dod i ben a bos Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd parhad i'r arian ond nid ydynt wedi derbyn y manylion llawn hyd yma.</p> <p>Aethpwyd drwy y cynnydd sydd wedi digwydd yn y Timau Integredig ar draws Môn a Gwynedd.</p> <p>Cyfeiriodd FfJ at y sefyllfa argyfyngus yn y sector gofal a dywedodd fod rôl i bartneriaid eraill gydweithio ar ymateb i'r sefyllfa.</p> <p>Diolchodd DS i FfJ am ei hymroddiad a'i gwaith caled yn arwain yr is-grŵp iechyd a gofal.</p>		
<b>6.</b>	<p>Heriau a chyfleon</p> <p>Nodwyd fod heriau a chyfleoedd eisoes wedi eu trafod yn ystod cyfarfod y BGC. Cyfleoedd i gydweithio, a'r heriau o ariannu gwaith y BGC.</p>		

<b>8</b>			
<b>9</b>			
<b>10</b>			
<b>11</b>			